

# HELENE MELANIE LABEL

Roedd Helene Melanie Label yn un o ryw 250,000 o bobl a gafodd eu llofruddio gan y Natsïaid am fod ganddyn nhw anabledd corfforol neu feddyliol.



HOLOCAUST  
MEMORIAL  
DAY TRUST



Rhwng 1939 a 1941, bu'r Natsïaid yn cynnal eu rhaglen Ewthanasia T4 i ladd pobl anabl. I ddechrau, roedden nhw'n cael eu lladd drwy chwistrelliad marwol neu'n cael eu newynu i farwolaeth ond pan welwyd bod hyn yn rhy araf, sefydlwyd chwech o ganolfannau lladd i gyflymu'r broses gyda nwy. Cyflawnwyd y llofruddiaethau arbrolf cyntaf gyda nwy yn y ganolfan ladd yn Brandenburg a lladdwyd miloedd o gleifion anabl mewn faniau nwy, a siambrau nwy a edrychai fel ystafelloedd cawod. Maes o law, cafodd y dull hwn o ladd pobl anabl ei ddefnyddio i lofruddio pobl ar raddfa fawr yng ngwersylloedd crynhoi'r Natsïaid fel Auschwitz-Birkenau.

Ganwyd Helene ar 15 Medi 1911, ac fe'i magwyd yn Fienna, Awstria gyda'i chwaer iau gan ei thad, a oedd yn Iddew, a'i mam Gatholig. Bu farw tad Helene yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a hithau ond yn bum mlwydd oed. Wrth iddi dyfu i fyny, roedd Helene yn hoff iawn o nofio ac ar ôl gadael yr ysgol uwchradd aeth ymlaen i ysgol y gyfraith.

Ym 1930, pan oedd Helene ond yn 19 oed, dechreuodd ddangos arwyddion o salwch meddwl. Erbyn 1935, roedd rhaid iddi roi'r gorau i astudio a'i swydd fel ysgrifenyddes gyfreithiol. Chwalodd nerfau Helene, cafodd ddiagnosis o sgitsoffrenia a chafodd ei rhoi mewn ysbyty seiciatryddol.

Er bod cyflwr Helene yn dechrau gwella, chafodd hi ddim dychwelyd adref. Yn dilyn yr *Anschluss* ym 1938 – pan ymunodd Awstria gyda'r Almaen – gorfodwyd Helene i aros mewn ysbyty meddwl. Ym mis Awst 1940, cafodd mam Helene wybod bod ei merch wedi cael ei throsglwyddo i ysbyty yn yr Almaen. Ond y gwir oedd fod Helene wedi cael ei symud i hen garchar, yn Brandenburg yn yr Almaen, lle cafodd ei lladd â nwy. Roedd Helene yn un enw ar restr o 9,772 o bobl a gafodd eu lladd yng nghanolfan Brandenburg ym 1940.

Efallai eich bod chi wedi sylwi bod hanes Helene yn fyrrach o lawer nag adnoddau eraill yr Ymddiriedolaeth. Y rheswm am hyn yw mai ychydig iawn rydym ni'n ei wybod am ddiodefwyr y rhaglen ewthanasia T4. Cafodd y rhaglen ei chynnal yn ddiregel i atal pobl yr Almaen rhag protestio. Fodd bynnag, ym 1941, wrth i bobl ddod i glywed am y rhaglen T4, fe ddechreuon nhw brotestio a'i gwrthwynebu. Ar 3 Awst 1941, rhoddodd Clemes von Galen, Esgob Catholig, bregeth angerddol yng Nghadeirlan Münster yn beirniadu'r rhaglen ewthanasia, gan ei disgrifio fel 'llofruddiaeth bur.' Soniodd am y dyfodol erchyll a oedd yn wynebu'r ddynolryw pe bai ewthanasia'n dod yn dderbyniol ar gyfer unrhyw un sydd â gwendid.

Yn sgil pwysau barn y cyhoedd, gorchynnodd Hitler i'r rhaglen ewthanasia swyddogol ddod i ben. Fodd bynnag, ni ddaeth y lladd i ben - yn hytrach, parhau wnaeth mewn ffyrdd mwy ddiregel; bu farw cleifion o orddos o gyffuriau, neu fe gawson nhw eu newynu i farwolaeth yn fwriadol. Cymerwyd organau llawer at ddibenion ymchwil wyddonol, a chladdwyd y cyrff mewn beddau torfol.

## I wybod mwy:

- Darllenwch am ymgais Berge Kanikianian i ddysgu mwy am *Aktion T4*: [hmd.org.uk/berge](http://hmd.org.uk/berge)
- Dysgwch fwy am Aktion T4: [hmd.org.uk/t4](http://hmd.org.uk/t4)
- Darllenwch fwy am sut roedd y Natsïaid yn trin pobl anabl: [hmd.org.uk/disabledpeople](http://hmd.org.uk/disabledpeople)
- Paratowyd yr adnodd hwn gan ddefnyddio gwybodaeth o'r erthygl 'Helene Melanie Label' o: <http://www.ushmm.org/wlc/en/idcard.php?ModuleId=10006301>



@HMD\_UK

hmd.org.uk



/HMD.UK